Bwletin rieni 22/01/21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Diolch i bawb gwnaeth ymateb i'r holiadur rhieni. Rydyn ni wedi rhannu holiadur gyda disgyblion ac wrth i ni symud ymlaen byddwn yn dadansoddi'r sylwadau ymhellach, ond atodaf grynodeb o ganlyniadau'r holiadur a beth fyddwn yn gwneud ar sail hwn.

Canfyddiadau holiadur rheini

Technoleg

Mae'r dechnoleg wedi gweithio i'r mwyafrif, a ble mae problemau wedi codi mae'r rhain wedi datrys i bron bawb. Nodwyd problemau sy'n parhau gyda meddalwedd a chaledwedd gan chwe rhiant. Os ydym ni'n medru helpu gyda hwn, cysylltwch naill ai gyda'ch arweinydd cynnydd a lles neu ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk a gwelwn beth allwn wneud.

Gwersi byw

Mae'r mwyafrif yn meddwl fod digon o wersi byw (62%) gyda rhai (28%) yn meddwl bod angen fwy. Mae 10% yn meddwl fod gormod o'r rhain. Mae'r atebion yn wahanol ar gyfer blynyddoedd gwahanol felly mae hwn wedi effeithio ein cynlluniau wrth symud ymlaen – rydyn ni'n trin grwpiau CA3 yn wahanol i CA4 a CA5 oherwydd pwysau 'arholiadau' allanol. Mae'r mwyafrif llethol yn barnu'r lefel her yn addas.

Tasgau annibynnol

Mae bron pawb yn barnu'r tasgau annibynnol yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Roedd y mwyafrif yn meddwl fod digon ohonynt gyda lleiafrif eisiau mwy. Yn y sylwadau cyffredinol nodwyd bod amseru yn medru fod yn broblem - byddai'n well gan nifer derbyn y rhain ar ddechrau'r wythnos a chynllunio eu gweithgareddau fel bo modd iddynt eu cwblhau o amgylch eu gwersi a/neu weithgareddau eraill.

Amser addysgu

Mewn diwrnod ysgol arferol mae disgyblion yn derbyn 5 awr o addysg, ac yn ystod yr wythnos ddiwethaf mae canllaw cenedlaethol wedi ei gyhoeddi sy'n nodi dylai'r ddarpariaeth lawn (gwersi byw, gwersi wedi eu recordio, tasgau annibynnol ayb) ar gyfer disgyblion blynyddoedd arholiad (Blwyddyn 10-13) fod yn bedair awr y dydd o leiaf ar gyfartaledd. Yn yr holiadur roedd dros 80% yn nodi bod y ddarpariaeth yn ddigon, gyda niferoedd tebyg yn nodi bod gormod a bod dim digon. Roedd y mwyafrif o'r atebion 'rhy hir' yn dod o rieni disgyblion blwyddyn 10 ac 11, a'r mwyafrif o'r atebion 'rhy fyr' yn dod o rieni cyfnod allweddol 3. Mae hwn yn cyd-fynd gyda'r amser gweithio nodwyd:

- Roedd disgyblion CA4 yn gwneud 5.5 awr ar gyfartaledd, gyda 33% yn gwneud dros 5 awr y dydd a bron neb yn gwneud llai a 3 awr.
- Roedd disgyblion CA3 yn gwneud 3.8 awr ar gyfartaledd, gyda chwarter yn gwneud dros 5 awr y dydd a thua 10% yn gwneud llai a 3 awr.

Rwyf heddiw wedi mynychu cyfarfod penaethiaid ysgolion Cymraeg o ysgolion ledled Cymru ac roedd yn ddiddorol clywed eu hadborth ar eu trefniadau nhw. Mae ysgolion wedi treialu dulliau darparu gwahanol ac mae pawb nawr yn edrych i ymateb i'w profiadau yn ystod y cyfnod clo. Roedd yr ysgolion oedd wedi dilyn amserlen lawn yn edrych i'w leihau ychydig - rhai yn torri gwersi, eraill yn torri hyd wersi i greu fwy o fylchau rhwng gwersi neu i orffen y dydd yn gynharach.

Trefniadau addysgu dros yr wythnosau nesaf

Yn dilyn ein hystyriaeth o'ch sylwadau, dyma amlinelliad o'n trefniadau ar gyfer gweddill yr hanner tymor (sef 3 wythnos). Mae'n glir o'r adborth sydd wedi dod bod barnau gwahanol iawn gan deuluoedd gwahanol ac nid yw'n bosib plesio nac ymateb i sefyllfa bob teulu. Mae'r model hwn hefyd yn ymateb i'r newidiadau mewn trefniadau asesu ar gyfer disgyblion blwyddyn 11, 12 a 13.

Chweched dosbarth

Bydd trefniadau'r chweched dosbarth yn parhau gydag amserlenni yn dilyn eu hamserlen arferol. Bydd bron bob gwers yn wers fyw. Bydd ambell wers sengl yn cael ei newid i waith annibynnol mewn pynciau ble mae hwn yn addas, er enghraifft yn y fagloriaeth.

Nodwch: Mae'r wythnos sy'n dechrau 25/1/21 yn mynd i fod ychydig yn wahanol wrth i ni gyflwyno'r trefniadau newydd. Bydd prynhawn Mercher (gwersi 5-8) yn gyfle i rieni holi felly ni fydd gwersi.

Cyfnod allweddol 4 (Blwyddyn 10 ac 11)

Nododd nifer o rieni bod gwneud diwrnodau llawn o wersi byw o flaen y sgrin wedi bod yn ormod i ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion sy'n targedu'r graddau uchaf ac isaf. Mae'r oriau maent yn gwneud yn uchel, gyda rhieni blwyddyn 11 yn nodi bod disgyblion yn gwneud 6.8 awr y dydd a blwyddyn 10 yn gwneud 5.3 awr. Byddwn felly yn lleihau'r amserlen ychydig iddynt fel eu bod yn cael tua 75% o'r gwersi ar-lein, gyda rhai tasgau annibynnol yn cefnogi'r gwaith yn y gwersi byw. Er mwyn cynnal amserlen deg ar draws y pynciau bydd hwn yn meddwl rhai diwrnodau sy'n drymach nag eraill. Byddwn ni'n annog disgyblion i gyflawni gweithgareddau iechyd a lles, gan gynnwys ymarfer corff, yn ystod y sesiynau hyn.

Nodwch: Mae'r wythnos sy'n dechrau 25/1/21 yn mynd i fod ychydig yn wahanol wrth i ni gyflwyno'r trefniadau newydd. Bydd prynhawn Mercher (gwersi 5-8) yn gyfle i rieni holi felly ni fydd gwersi.

Cyfnod allweddol 3 (Blwyddyn 7, 8 a 9)

Roedd y model cychwynnol ar gyfer cyfnod allweddol 3 yn cynnwys gwersi byw mewn dau bwnc a thasg annibynnol wedi amserlenni bob dydd. Roedd y gwersi byw felly yn amrywio, gyda rhai gwersi dwbl a rhai sengl. Roedd y mwyafrif o rieni wedi nodi bod digon o wersi byw yng nghyfnod allweddol 3, ond roedd y nifer oedd eisiau mwy yn uwch na'r cyfnodau allweddol eraill, gyda rhyw 40% eisiau fwy o wersi.

Er mwyn cysoni'r ddarpariaeth byddwn yn symud tuag at bedair gwers fyw'r dydd. Er mwyn cael trawstoriad teg o bynciau mae'r gwersi hyn yn cynnwys cymysgedd o wersi sengl a dwbl. Bydd gwaith annibynnol ar ben y rhain, ond er mwyn ymateb i sylwadau rieni ac i alluogi disgyblion i gynllunio'r gwaith annibynnol o amgylch y gwersi sydd wedi eu hamserlenni ni fydd hwn wedi ei roi ar yr amserlen. Bydd y gwaith annibynnol yn cynnwys:

1. Tasgau pynciol sy'n 'waith cartref' yn dilyn gwersi. Bydd y gwaith yma yn cael ei roi gan athrawon pwnc yn eu gwersi.
2. Gwaith ymarfer corff. Bydd tasgau wythnosol yn cael eu rhoi ac anogwn ddisgyblion i wneud ychydig o waith ymarfer corff bob dydd.
3. Tasgau craidd ar gyfer y flwyddyn: Mae'r cwricwlwm yn cynnwys elfennau trawsgwricwlaidd sy'n berthnasol i bawb – mae hwn yn cynnwys lles a datblygiad personol, ABCh, llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. Bydd hefyd gwaith ar themâu trawsgwricwlaidd pwysig. Gall y gwaith yma cynnwys gwaith sy'n dod o'r ysgol ac adnoddau cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu darparu i'r flwyddyn gyfan yn y Team blwyddyn erbyn canol dydd bob dydd Llun.
4. Tasgau ymestyn ar gyfer y flwyddyn: Mae gweithio o adref yn rhoi cyfle i ddisgyblion sydd eisiau herio eu hunain datblygu mewn meysydd penodol tu allan i'r cwricwlwm craidd.

Ceisiwn ddatblygu disgyblion uchelgeisiol a byddwn yn annog disgyblion sydd eisiau herio eu hunain. Bydd hefyd cysylltiadau i adnoddau sy'n dod o brifysgolion a sefydliadau eraill er mwyn ehangu profiadau disgyblion. Bydd y tasgau hyn yn opsiynau ond mae'n bosib bydd rhai athrawon yn targedu disgyblion penodol sydd angen eu herio a'u gofyn i wneud rhai o'r rhain. Bydd y rhain yn cael eu darparu i'r flwyddyn gyfan yn y Team blwyddyn erbyn canol dydd bob dydd Llun.

Nodwch: Mae'r wythnos sy'n dechrau 25/1/21 yn mynd i fod ychydig yn wahanol wrth i ni gyflwyno'r trefniadau newydd. Bydd prynhawn Mercher (gwersi 5-8) yn gyfle i rieni holi felly ni fydd gwersi. Bydd tasgau annibynnol CA3 yn cael eu darparu yn rhannol ar ddydd Llun ac yn rhannol ar ddydd Mercher yn lle popeth ar ddydd Llun. Bydd yw wythnosau sy'n dilyn yn dilyn y drefn normal.

Asesu ar gyfer TGAU/UG/Safon Uwch

Yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth am drefniadau asesu haf 2021, mae nifer o bethau'n aneglur ond mae'r pwysau i baratoi tuag at asesiadau penodol yn yr haf wedi mynd. Bydd disgyblion yn debygol o barhau i dderbyn eu haddysg yn hirach nag arfer: mewn blwyddyn normal mae'r cyfnod asesu yn dechrau ar ddechrau Mai, ond tybiwn fydd addysgu yn parhau mewn i Fehefin eleni. Bydd hwn yn gymorth wrth i ni sicrhau bod disgyblion yn meistroli'r agweddau allweddol sydd eu hangen wrth iddynt symud o flwyddyn 11 i addysg ôl-16, neu o flwyddyn 13 i addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau neu'r gweithle.

Bydd disgwyl i ysgolion cynllunio cynllun asesu clir ar gyfer pennu graddau, gyda'r broses yn cael ei wirio'n allanol. Nid oes gennym fanylion pellach am yn ddisgwyliadau hyn ar hyn o bryd. Wrth i ni gynnal noswaith rieni blwyddyn 11, neu'r prynhawn i holi, a chynhyrchu adroddiadau, ni fydd modd i ni nodi beth yw'r radd bydd disgyblion yn derbyn. Gallwn nodi safon eu gwaith hyd yma, neu safon darnau unigol, ond nid oes modd i ni rannu mwy tan ein bod ni'n derbyn gwybodaeth lawn.

Prynhawn i holi athrawon

Cofiwch fod gennych gyfle i holi athrawon pynciol eich plant ar brynhawn Mercher 27/1/21. Mae'r canllawiau wedi eu hanfon atoch yn barod, a defnyddiwn wefan ysgolpenweddig.schoolcloud.co.uk. Gobeithiaf fod hwn yn rhoi cyfle i dderbyn atebion i gwestiynau pwnc penodol. Os oes gennych gwestiynau ar ôl y prynhawn gallwch gyfeirio hwy at yr arweinydd cynnydd a lles perthnasol neu at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Gobeithiaf fod pawb yn parhau yn iach. Cofiwch ein bod yma i ymateb i gwestiynau neu sylwadau. Gallwch gysylltu trwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)